Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Rhagfyr 2005

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Penrhyddid y Tymor?

Darganfu arolwg diweddar gan bapur newydd y Guardian fod 40% o reolwyr adnoddau dynol wedi gweld aelodau o staff a oedd wedi meddwi yn dweud wrth eu rheolwyr atebol beth oedden nhw'n ei feddwl ohonyn nhw yn ystod parti Nadolig y swyddfa.

A ydych chi wedi sicrhau bod staff eich cwmni neu'ch adran chi'n gwybod lle mae'r ffin rhwng cael hwyl ac ymddwyn yn annerbyniol, ac a ydych chi wedi sicrhau beth rydych chi'n barod i'w wneud â'r rhai sy'n troseddu?

Atal yr e-Ladron

Yn ôl yr arbenigwyr meddalwedd cyfrifiadurol rhyngwladol Symantec, anfonir 5.7 miliwn o negeseuon e-bost "rhwyd-dwyll" bob dydd trwy'r byd i geisio dal gwybodaeth ariannol er mwyn cyflawni twyll.

Faint o syniad sydd gennych chi am fygythiad sgamiau'r Rhyngrwyd i'ch busnes, ac a ydych chi'n hyderus y bydd polisïau a gweithdrefnau'ch cwmni yn eich atal rhag dod yn ddioddefwr e-drosedd, boed o darddiad mewnol neu allanol?

Marchnata Byw

Mae'r awdur busnes Jay Conrad Levinson yn dadlau nad digwyddiad, ond proses, yw marchnata. Mae ganddo ddechrau, canol, ond nid oes ganddo fyth ddiwedd, gan mai proses ydyw. Gallwch ei wella, ei berffeithio, ei newid, a hyd yn oed rhoi seibiant iddo am gyfnod, ond allwch chi ddim rhoi'r gorau iddo'n llwyr.

Pa mor dda ydych chi am adael i'ch staff iau geisio ateb heriau newydd a fydd yn ymestyn eu galluoedd, mwyn iddyn nhw dyfu o ran profiad a hyder? Sut ydych chi'n rheoli'r risgiau dan sylw, o ystyried ei bod y anochel y bydd ambell i smonach ar hyd y ffordd?

Mynd y Filltir Ychwanegol

Darganfu arolwg newydd gan gwmni gwasanaethau proffesiynol byd-eang o'r enw Towers Perrin mai 12% o weithwyr yn unig fyddai'n "mynd y filltir ychwanegol" i'w rheolwyr, a bod 23% wedi "mynd ati i ddatgysylltu'u hunain" o'u swyddi.

Allech chi fel rheolwr ennyn mwy o ymroddiad na hynny oddi wrth eich staff ? Sut fyddwch chi'n adnabod anfodlonrwydd yn cyniwair ymhlith aelodau'r staff ac yn atal eich pobl rhag cael eu dadrithio a'u datgysylltu yn y pen draw?

Osgoi'r Fi Fawr

Mae'r seicolegydd busnes Jon Stokes yn ein rhybuddio os byddwn yn dyrchafu pobl yn gyflym i ddod yn rheolwyr gall hyn gael effaith beryglus ar ego ambell unigolyn – sef syndrom y mae ef yn ei ddisgrifio fel hunanaddoliad sefyllfaol caffaeledig. Meddai, "Gall dod yn brif weithredwr, er enghraifft, fynd i'ch pen yn llwyr. Pan fyddwch chi mewn sefyllfa rymus, mae'n bosib y byddwch chi'n sicrhau mai dim ond pobl nad ydyn nhw byth yn anghytuno â chi sydd o'ch cwmpas."

Sut fyddwch chi'n gwirio bod eich traed yn dal ar y ddaear, ac nad ydych chi'n dioddef o'r syndrom yma? A oes gennych chi rywun rydych chi'n ymddiried ynddo i ddod â'ch traed yn ôl i'r ddaear os ydych chi'n dechrau ymgolli yn eich safle uchel yn y sefydliad?

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth